| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **18 IONAWR 2024** |
| TEITL: | **RHAGLEN GYFALAF 2023/24 –<br>ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2023** |
| PWRPAS: | **Adroddiad Monitro ar Wariant ac Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau i'r Cabinet** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD IOAN THOMAS** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **FFION MADOG EVANS,<br>PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL** |

---

**1.** Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

**2.** Cyflwynir yr adroddiad atodol (Rhaglen Gyfalaf 2023/24 - Adolygiad Diwedd Tachwedd 2023) i'r Cabinet ar 23 Ionawr 2024 ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.

**3.** Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid, a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w graffu.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, craffu penderfyniadau i'r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

**Atodiadau:**
Adroddiad Cabinet 23/01/2024: Rhaglen Gyfalaf 2023/24 - Adolygiad Diwedd Tachwedd 2023